



Cofnodion y Cyfarfod Mawr (CCB)
Dydd Llun, 3 Rhagfyr, 6-8pm
Prif Ystafell, Undeb Myfyrwyr Aberystwyth

Agenda	Eitem	Nodiadau / Deiliant
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	Croeso	Croesawodd Cadeirydd yr Undeb bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod; cyflwynodd hi ei hun a sut byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal.
	Cworwm	Cadarnhaodd Cadeirydd yr Undeb bod cworwm, felly roedd modd bwrw ymlaen â'r cyfarfod a chofnodwyd bod 157 aelod yn bresennol.
2. Materion Trafod y Cyfarfod Mawr	Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	Cyflwynodd Llywydd yr Undeb adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a gwahoddwyd cwestiynau o'r llawr. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau a derbyniwyd yr adroddiad gan y cyfarfod. Gellir gweld yr adroddiad llawn yn y papurau ar gyfer y cyfarfod
	Cyfrifon wedi'u Harchwilio	Yn anffodus, nid oedd modd i Lywydd Undeb y Myfyrwyr gyflwyno'r cyfrifon blynyddol wedi'u harchwilio, gan fod y rhain yn dal i gael eu cwblhau gan yr archwilydd. Darparwyd trosolwg cychwynnol o sefyllfa bositif bresennol yr Undeb ac eglurwyd y bydd y cyfrif archwiliedig terfynol ar gael ar wefan yr undeb a'r comisiwn elusennau unwaith y caiff ei gymeradwyo gan yr ymddiriedolwyr.
	Penodi Archwilwyr	Cynigiodd Llywydd yr Undeb y dylai Cyfrifyddion Siartredig Francis Gray weithredu fel ein harchwilwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, a gwahoddwyd cwestiynau o'r llawr. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau a chymeradwywyd y penodiad gan y cyfarfod.
	Cymeradwyo Ymaelodaethau	Cynigiodd Llywydd yr Undeb restr o Ymaelodaethau ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol a gwahoddwyd cwestiynau o'r llawr. <ul style="list-style-type: none"> ○ Holwyd un cwestiwn ynglŷn â pham bod gofyn i'r ystafell gymeradwyo ymaelodaethau yn eu cyfanrwydd yn hytrach nag yn unigol. Eglurwyd bod mwy na 50 o ymaelodaethau os ydych chi'n cynnwys Clybiau a Chymdeithasau'r Undeb, ac oherwydd hynny ystyriwyd mai dyma'r oedd y ffordd fwyaf effeithlon, o ystyried yr amser sydd ar gael. Gwahoddodd y Cadeirydd aelodau a oedd yn pryderu ynghylch unrhyw ymaelodaeth benodol i godi'r mater fel y gellid ei ystyried yn unigol. <p>Ni amlygwyd unrhyw ymaelodaethau unigol a chymeradwywyd y rhestr o ymaelodaethau gan y cyfarfod.</p>
	Cymeradwyo'r Swyddog Etholiadau	Cynigiodd Llywydd yr Undeb y dylai Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr weithredu fel y Swyddog Etholiadau ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol, a gwahoddwyd cwestiynau o'r llawr. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau a chymeradwywyd y penodiad gan y cyfarfod.



3. Adroddiad y Swyddogion	Bydd y Swyddogion yn trafod eu gweithgareddau, ac mae'n gyfle i chi gael gwybod am yr hyn maen nhw wedi ei wneud ar eich rhan.	<p>O hyn ymlaen, caiff adroddiadau'r Swyddogion Llawn Amser ar gyfer Materion Academaidd, Cyfleoedd i Fyfirwyr, Llesiant a Diwylliant Cymreig eu cyflwyno yn y Parth perthnasol.</p> <p>Cyflwynodd Llywydd yr Undeb adroddiad ar ran yr holl Swyddogion Llawn-amser. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyfarfod. Gellir gweld yr adroddiad llawn yn y papurau ar gyfer y cyfarfod</p>
----------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

4. Eich Syniadau	Mae adran hon y cyfarfod yn trafod ac yn pleidleisio ar y syniadau sydd wedi cael eu cyflwyno i'r Cyngor. Mae pob syniad sy'n cael ei basio yn y cyfarfod yn ddibynol ar gymeradwyaeth derfynol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.					
Syniad 1	<p>Newid y System Bleidleisio Lyra Hawkins ar ran Kieran Metson - Cynrychiolwyr Cymdeithasau a Chwaraeon ar y Senedd</p> <table border="1" data-bbox="387 719 1390 1308"> <tr> <td data-bbox="387 719 724 1014"> Syniad - Cwestiynau </td> <td data-bbox="724 719 1390 1014"> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd angen eglurhad ar gyfer rhai awgrymiadau, megis gosod y system bleidleisio ar-lein. Yna penderfynwyd y byddai Undeb y Myfirwyr yn cynhyrchu'r system derfynol. • Sut y caiff cynrychiolwyr eu dal i gyfrif wrth ddefnyddio system bleidleisio anhysbys? Dylai sut mae cynrychiolwyr yn pleidleisio gael ei wneud yn gyhoeddus, neu dylent fod yn fodlon darparu ateb os gofynnir iddynt. </td> </tr> <tr> <td data-bbox="387 1014 724 1308"> Syniad - Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr ychwanegol (o blaid ac yn erbyn) </td> <td data-bbox="724 1014 1390 1308"> <ul style="list-style-type: none"> ○ Mae'r Senedd yn gyfarfod llai, ac mae defnyddio cardiau pleidleisio yn ei gwneud yn amlwg iawn pwy a bleidleisiodd dros beth. ○ Mae eich cynrychiolwyr yn dal i fod yn atebol, gan y dylech allu gofyn pa ffordd y bu iddynt bleidleisio. ○ Dylech fod â ffydd yn eich cynrychiolwyr a'u hatebolrwydd, ac nad ydynt yn ildio i bwysedd gan gyfoedion fel aelod etholedig. </td> </tr> </table> <p data-bbox="387 1308 1390 1373"> Syniad - Pleidlais PASIWYD Y SYNIAD 77 O blaid, 51 Yn erbyn, 17 Ymatal </p>		Syniad - Cwestiynau	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd angen eglurhad ar gyfer rhai awgrymiadau, megis gosod y system bleidleisio ar-lein. Yna penderfynwyd y byddai Undeb y Myfirwyr yn cynhyrchu'r system derfynol. • Sut y caiff cynrychiolwyr eu dal i gyfrif wrth ddefnyddio system bleidleisio anhysbys? Dylai sut mae cynrychiolwyr yn pleidleisio gael ei wneud yn gyhoeddus, neu dylent fod yn fodlon darparu ateb os gofynnir iddynt. 	Syniad - Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr ychwanegol (o blaid ac yn erbyn)	<ul style="list-style-type: none"> ○ Mae'r Senedd yn gyfarfod llai, ac mae defnyddio cardiau pleidleisio yn ei gwneud yn amlwg iawn pwy a bleidleisiodd dros beth. ○ Mae eich cynrychiolwyr yn dal i fod yn atebol, gan y dylech allu gofyn pa ffordd y bu iddynt bleidleisio. ○ Dylech fod â ffydd yn eich cynrychiolwyr a'u hatebolrwydd, ac nad ydynt yn ildio i bwysedd gan gyfoedion fel aelod etholedig.
Syniad - Cwestiynau	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd angen eglurhad ar gyfer rhai awgrymiadau, megis gosod y system bleidleisio ar-lein. Yna penderfynwyd y byddai Undeb y Myfirwyr yn cynhyrchu'r system derfynol. • Sut y caiff cynrychiolwyr eu dal i gyfrif wrth ddefnyddio system bleidleisio anhysbys? Dylai sut mae cynrychiolwyr yn pleidleisio gael ei wneud yn gyhoeddus, neu dylent fod yn fodlon darparu ateb os gofynnir iddynt. 					
Syniad - Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr ychwanegol (o blaid ac yn erbyn)	<ul style="list-style-type: none"> ○ Mae'r Senedd yn gyfarfod llai, ac mae defnyddio cardiau pleidleisio yn ei gwneud yn amlwg iawn pwy a bleidleisiodd dros beth. ○ Mae eich cynrychiolwyr yn dal i fod yn atebol, gan y dylech allu gofyn pa ffordd y bu iddynt bleidleisio. ○ Dylech fod â ffydd yn eich cynrychiolwyr a'u hatebolrwydd, ac nad ydynt yn ildio i bwysedd gan gyfoedion fel aelod etholedig. 					
Syniad 2	<p>Masgot Tîm Aber Bruce Wight - Llywydd yr Undeb ar ran Harry Straw</p> <table border="1" data-bbox="387 1442 1390 1868"> <tr> <td data-bbox="387 1442 724 1574"> Syniad – Cwestiynau </td> <td data-bbox="724 1442 1390 1574"> <ul style="list-style-type: none"> • Pa gemau BUCS fydd y masgot yn eu mynychu, ac a fydd yna gefnogaeth i dimau nad ydynt yn BUCS? Cadarnhawyd y byddai hyn yn ôl disgrisiwn y Tîm Cyfleoedd. </td> </tr> <tr> <td data-bbox="387 1574 724 1868"> Syniad - Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr ychwanegol (o blaid ac yn erbyn) </td> <td data-bbox="724 1574 1390 1868"> <ul style="list-style-type: none"> ○ Dim ond gwisg yw hi ar ddiwedd y dydd. ○ Os gallwn ni ei fforddio, mae'n gwneud i glybiau chwaraeon deimlo eu bod yn cael eu cynnwys. ○ Nid oes gennym ddigon o wybodaeth i gymeradwyo hyn. ○ Ar hyn o bryd nid yw timau llai yn derbyn yr un swm o arian â'r timau mwy; pam ddylen nhw gyfiawnhau arian maen nhw ei angen yn cael ei wario ar wisgoed? </td> </tr> </table> <p data-bbox="387 1868 1390 1919"> Syniad - Pleidlais PASIWYD Y SYNIAD 99 O blaid, 20 Yn erbyn, 21 Ymatal </p>		Syniad – Cwestiynau	<ul style="list-style-type: none"> • Pa gemau BUCS fydd y masgot yn eu mynychu, ac a fydd yna gefnogaeth i dimau nad ydynt yn BUCS? Cadarnhawyd y byddai hyn yn ôl disgrisiwn y Tîm Cyfleoedd. 	Syniad - Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr ychwanegol (o blaid ac yn erbyn)	<ul style="list-style-type: none"> ○ Dim ond gwisg yw hi ar ddiwedd y dydd. ○ Os gallwn ni ei fforddio, mae'n gwneud i glybiau chwaraeon deimlo eu bod yn cael eu cynnwys. ○ Nid oes gennym ddigon o wybodaeth i gymeradwyo hyn. ○ Ar hyn o bryd nid yw timau llai yn derbyn yr un swm o arian â'r timau mwy; pam ddylen nhw gyfiawnhau arian maen nhw ei angen yn cael ei wario ar wisgoed?
Syniad – Cwestiynau	<ul style="list-style-type: none"> • Pa gemau BUCS fydd y masgot yn eu mynychu, ac a fydd yna gefnogaeth i dimau nad ydynt yn BUCS? Cadarnhawyd y byddai hyn yn ôl disgrisiwn y Tîm Cyfleoedd. 					
Syniad - Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr ychwanegol (o blaid ac yn erbyn)	<ul style="list-style-type: none"> ○ Dim ond gwisg yw hi ar ddiwedd y dydd. ○ Os gallwn ni ei fforddio, mae'n gwneud i glybiau chwaraeon deimlo eu bod yn cael eu cynnwys. ○ Nid oes gennym ddigon o wybodaeth i gymeradwyo hyn. ○ Ar hyn o bryd nid yw timau llai yn derbyn yr un swm o arian â'r timau mwy; pam ddylen nhw gyfiawnhau arian maen nhw ei angen yn cael ei wario ar wisgoed? 					



Syniad 3 (Gan gynnwys Gwelliant)	Rydyn ni am weld cyllid ar gyfer Chwaraeon Bruce Wight, Llywydd Undeb y Myfyrwyr	
	Syniad – Cwestiynau	<ul style="list-style-type: none"> • A fyddai hyn yn cymryd arian oddi wrth yr ochr academiaidd? Yn ddefnyddiol, byddai'r cyllid yn dod o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys cyllidwyr allanol megis Llywodraeth Cymru, BUCS a Chwaraeon Cymru. Cynigiwyd, ar gyfer pob adnewyddiad academiaidd newydd neu adeilad newydd, y dylai fod dau yn gysylltiedig â chwaraeon (mae'r polisi yn nodi y dylai hyn fod yn un am un).
	Gwelliant: Cynnwys <i>Astroturf</i> fel Blaenoriaeth Bruce Wight, Llywydd Undeb y Myfyrwyr	
Gwelliant - Cwestiynau	<ul style="list-style-type: none"> • Ble fyddai <i>Astroturf</i> yn cael ei osod? Mae'r Brifysgol eisoes wedi bod yn chwilio am leoliadau ar gyfer <i>Astroturf</i> newydd; os byddai yn y dref, byddai o fudd i bobl leol. • Sut mae <i>Astroturf</i> yn gyfartal â llyfrgell ar gampws prifysgol? Dydy o ddim, ond mae'n dal i fod yn fuddsoddiad gwerth chweil i wella llesiant myfyrwyr • Pa fath o <i>Astro</i>? Awgrymwyd y byddai <i>Astro</i> newydd yn fersiwn aml-ddefnydd, felly gellid ei ddefnyddio gan amrywiaeth o glybiau. 	
Gwelliant - Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	<ul style="list-style-type: none"> ○ Cyfoethogi profiad y myfyriwr - nid yw'n cyfateb â llyfrgell, ond mae'n rhoi cyfleusterau gwell i ni i gystadlu â phrifysgolion eraill. ○ Mae'n helpu'r gymuned leol a gellir ei ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth o chwaraeon. ○ Mae chwaraeon yn hanfodol ar gyfer iechyd meddwl ac yn cadw pobl yn hapus yn y brifysgol. ○ Bydd popeth yn cael ei gyflawni o fewn y gyllideb; mae mwy i brifysgol na phrofiad academiaidd yn unig. ○ Ni ddylem fod yn blaenoriaethu <i>Astroturf</i> dros lyfrgell. ○ Dylai cyrff cyllido allanol dalu amdano. Does neb yn gwrthwynebu buddsoddiad mewn chwaraeon, ond ni ddylai'r arian ddod o'r brifysgol. 	



		<ul style="list-style-type: none"> ○ Does gennym ni mo'r un fath o gyllideb â phrifysgolion mwy.
	Gwelliant - Pleidlais	Mae'r GWELLIANT yn PASIO. 99 O blaid, 46 Yn erbyn, 12 Ymatal
	Syniad - Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr ychwanegol (o blaid ac yn erbyn)	<ul style="list-style-type: none"> ○ Mae'n fodd o lacio straen. ○ Mae teithio 40 munud i chwarae gemau cartref yn gwastraffu amser ac arian. ○ Mae'n golygu colli amser ymarfer, gan nad yw cyfleusterau bob amser yn barod. ○ Nid yw'r cyfleusterau'n ddigon da ar gyfer gemau BUCS, mae'r offer yn cael ei golli ac mae angen i ni wella'r gwasanaethau sydd gennym ar gyfer timau presennol. ○ Dydych chi ddim yn dod i'r brifysgol i gymryd rhan mewn chwaraeon, felly dylai'r profiad academaidd gael ei flaenoriaethu.
	Syniad - Pleidlais	PASIWYD Y SYNIAD 110 O blaid, 20 Yn erbyn, 11 Ymatal
Awgrymodd y Cadeirydd egwyl o 10 munud.		
Ar ôl dychwelyd ar ôl yr egwyl, cynhaliwyd cyfrif cworwm, gan gadarnhau bod 124 aelod yn dal i fod yn bresennol, felly gallai'r cyfarfod fynd rhagddo.		

Syniad 4	Gwnewch Aberystwyth y Brifysgol Gynaliadwy o ran Olew Palmwydd Gyntaf yn y DU! Bethan Phillips yn siarad ar ran Harry Basnet	
	Syniad - Cwestiynau	<ul style="list-style-type: none"> • Sut allwn ni sicrhau ei fod yn gynaliadwy? Doedd y sawl a gynigiodd y syniad yn y lle cyntaf ddim yn bresennol, felly nid oedd modd ateb y pwynt hwn. • Pa ganran o olew palmwydd yn siopau a bwyta'i'r brifysgol sydd ar hyn o bryd yn gynaliadwy? Cadarnhawyd er nad oeddem yn ymwybodol o'r union ffigur, bod gwaith pellach i sefydlu hyn wedi'i nodi yn y syniad. • Sut ydym ni'n gwybod nad yw cwmnïau sy'n honni defnyddio olew palmwydd cynaliadwy yn dweud celwydd wrthon ni? Doedd y sawl a gynigiodd y syniad yn y lle cyntaf ddim yn bresennol, felly nid oedd modd ateb y pwynt hwn.
	Syniad - Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr ychwanegol (o blaid ac yn erbyn)	<ul style="list-style-type: none"> ○ Mae olew palmwydd yn fater pwysig o ran mwy na chynhyrchion bwyd yn unig - mae angen i ni gymryd pob cam posib i wella'r sefyllfa. ○ Mae olew palmwydd yn cynnwys asid palmitig sy'n cael effaith negyddol ar golesterol. ○ Mae'n gam tuag at rywbeth gwell a gwneud datganiad o fwriad. ○ Ni allwch gael gwared ar rywbeth yn gyfangwbl yn syth, mae angen i ni ddod o hyd i ddewisiadau amgen.



	Syniad - Pleidlais	PASIWYD Y SYNIAD 119 O blaid, 2 Yn erbyn, 0 Ymatal
Syniad 5	Syml a chryno – newid y weithdrefn ar gyfer Syniadau Brys Lyra Hawkins - Cynrychiolwyr Cymdeithasau ar y Senedd	
	Syniad - Cwestiynau	Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyfarfod.
	Syniad - Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr ychwanegol (o blaid ac yn erbyn)	<ul style="list-style-type: none"> ○ Cyflwynir syniadau brys cyn y cyfarfod; nid oes cyfle i ychwanegu gwelliannau. Mae'r syniad hwn yn rhoi cyfnod o amser yn y cyfarfod i ganiatáu gwelliannau a fyddai'n ddefnyddiol i'r syniad.
	Pleidlais	PASIWYD Y SYNIAD 83 O blaid, 2 Yn erbyn, 22 Ymatal

Syniad 6 (Gan gynnwys Gwelliant)	Gwrthwynebu'r Penderfyniad i Foicotio Strategaeth <i>Prevent</i> Daniel Mockridge yn siarad ar ran Jack Clare	
	Syniad - Cwestiynau:	<ul style="list-style-type: none"> • Pam ddylai UMAber fel elusen, gydymffurfio pan nad yw elusennau eraill yn gwneud hynny? Byddai'n golygu risg i fyfyrwyr os nad ydynt yn cymryd rhan ynddo; ein cyfrifoldeb ni yw diogelu myfyrwyr.
	Tynnwyd Gwelliant oedd i'w drafod yn ôl cyn dechrau'r ddadl.	
Syniad - Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr ychwanegol (o blaid ac yn erbyn)	<ul style="list-style-type: none"> ○ Gellid bod wedi helpu 40% o'r bobl a gynhaliodd ymosodiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf drwy ddefnyddio <i>Prevent</i>. Mae'n anghyfrifol peidio â chydymffurfio. ○ Dinasyddion Prydeinig oedd y rhan fwyaf o'r bobl a gyflawnodd y 5 ymosodiad mwyaf yn 2017; mae'n rhaid bod rhywun wedi cael cyfle i'w radialeiddio. ○ Mae anawsterau sy'n perthyn i <i>Prevent</i> wedi'u datrys gan Lywodraeth Prydain. 	



		<ul style="list-style-type: none"> ○ Mae <i>Prevent</i> yn rhywbeth nad oes ei angen yn Undeb y Myfyrwyr, mae'n bleidlais symbolaidd. ○ Mae <i>Prevent</i> yn cael ei ddefnyddio ar gyfer codi ofnau'n ddiangen ac annog diffyg ymwybyddiaeth. ○ Mae llawer o fyrddau gwahanol yn cyfaddef nad yw <i>Prevent</i> yn ddigonol, gan gynnwys cyrff gwrthderfysgaeth. ○ Mae 1 o bob 10 o bobl yn cael eu targedu dan <i>Prevent</i>, ac yn sgil hynny'n wynebu niwed posib i'w bywydau.
	Syniad - Pleidlais	PASIWYD Y SYNIAD 70 O blaid, 46 Yn erbyn, 9 Ymatal
<p>Ar y pwynt hwn gadawodd nifer o bobl yr ystafell a chynhaliwyd cyfrif cworwm; gyda dim ond 79 o aelodau â hawl i bleidleisio'n bresennol, eglurodd Cadeirydd yr Undeb y byddai'r cyfarfod yn cael ei ohirio.</p>		
Syniad 7	<p>Syniad Brys: Ymgeiswyr ac Aelodaeth o Undeb y Myfyrwyr Megan Hatfield – Swyddog Materion Academaidd:</p>	
	Syniad Brys - Cwestiynau	<ul style="list-style-type: none"> ○ Beth mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd, beth na all myfyrwyr ei wneud? Ar hyn o bryd nid yw ymgeiswyr yn gallu sefyll mewn etholiadau na phleidleisio.
<p>Gyda nifer fawr o'r rhai a fynychodd wedi gadael yr ystafell a bod y cyfarfod wedi para bron i 3 awr, penderfynodd rhai aelodau ddwyn i sylw Cadeirydd yr Undeb y gallai'r cyfarfod nawr fod yn brin o'r cworwm. Cynhaliwyd cyfrif cworwm; cadarnhawyd bod 79 o aelodau â phleidlais yn dal i fod yn bresennol.</p> <p>O ganlyniad i beidio â bodloni cworwm o 100 aelod â phleidlais, esboniodd Cadeirydd yr Undeb y byddai'r cyfarfod yn cael ei ohirio, gyda busnes sydd heb ei drafod yn mynd ymlaen i'r cyfarfod nesaf.</p> <p>Cyn dod â'r cyfarfod i ben, gofynnodd Cadeirydd yr Undeb am bleidlais anffurfiol ar y syniad presennol er mwyn i'r Undeb gael rhyw fath o syniad am gryfder teimladau ymhlith myfyrwyr ynghylch y mater a gyflwynwyd. Mynegodd mwyafrif yr aelodau a oedd yn bresennol y byddent o blaid mynd â'r syniad a gyflwynwyd ymlaen.</p>		
5. Unrhyw Fusnes Arall	Rhoddwyd cyfle i bawb a oedd yn bresennol godi unrhyw fater na chafodd ei drafod eisoes, neu i roi gwybod i bobl am unrhyw beth a oedd yn ymwneud â'r cyfarfod a oedd yn digwydd yr wythnos honno, gan gynnwys cwestiynau agored i'r ymddiriedolwyr.	
6. Cofiwch y Dyddiad!	Cyfarfod nesaf y Senedd: 25 Chwefror 2019; Dyddiad cau ar gyfer Syniadau 11 Chwefror 2019.	